# PWYLLGOR SAFONAU

Dydd Gwener, 4 Chwefror 2022

**YN BRESENNOL:** M. Dodd (Cadeirydd)

**Aelodau Annibynnol:**
C. Davies, D. Evans, J. James a F. Phillips

**Aelod Cymunedol:**
Y Cynghorydd Tref P. Rogers

**Y Cynghorwyr:**
S.J.G. Gilasbey, R. James a G.B. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.30 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. LOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 13 RHAGFYR 2021.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2021 yn gofnod cywir.**

## 4. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD T DEVICHAND

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Cymuned T Devichand am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad, pleidleisio a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar faterion yn ymwneud â gwaredu terfynau cyflymder 20mya a chyfyngiadau parcio ar Heol Maescanner a Heol Dafen, Llanelli.

Dywedwyd bod gollyngiad yn cael ei geisio gan fod ei hetholwyr wedi gofyn i'r Cynghorydd Devichand ddadlau eu hachos a bod ganddi fuddiant personol a rhagfarnol yn y mater hwn, am ei bod yn byw yn Heol Dafen a bod y cynnig yn effeithio arni. Roedd y Cynghorydd Devichand wedi gofyn am i ollyngiad gael ei roi am y rhesymau canlynol:-

- Ni fyddai ei chyfraniad at unrhyw fusnes Cyngor o'r fath yn niweidio hyder y cyhoedd ac

- Roedd ei buddiant yn gyffredin i gyfran sylweddol o'r cyhoedd

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Devichand wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliadau 2 (d) a (e) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol at yr ail reswm a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Devichand i gefnogi ei chais am ollyngiad, a dywedodd nad oedd yn berthnasol i'r cais ar y sail ei fod yn fater lleol ac felly nid oedd yn gyffredin i gyfran sylweddol o'r cyhoedd.

Yn dilyn trafodaeth:-

**PENDERFYNWYD**

**4.1 bod y gollyngiad yn cael ei roi o dan Reoliad 2 (d) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Tegwen Devichand siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig, ond nid pleidleisio, yng nghyfarfodydd Cyngor Gwledig Llanelli mewn perthynas â materion oedd yn ymwneud â gwaredu terfynau cyflymder 20mya a chyfyngiadau parcio ar Heol Maescanner a Heol Dafen, Llanelli**

**4.2 Bod cyfnod y gollyngiad yn cael ei roi hyd at ddiwedd cyfnod presennol y Cynghorydd Devichand yn ei swydd hyd at yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022**

## 5. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD SHAREN LOUISE DAVIES

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Sir S.L. Davies am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad, pleidleisio a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar faterion yn ymwneud â gwaredu terfynau cyflymder 20mya a chyfyngiadau parcio ar Heol Maescanner, Llanelli.

Dywedwyd bod gollyngiad yn cael ei geisio gan fod ei hetholwyr wedi gofyn i'r Cynghorydd Davies ddadlau eu hachos a bod ganddi fuddiant personol a rhagfarnol yn y mater hwn, am fod ei mam yn berchen eiddo yn Heol Maescanner ac felly roedd y cynnig yn effeithio arni. Roedd y Cynghorydd Davies wedi gofyn am i ollyngiad gael ei roi am y rhesymau canlynol:-

- Ni fyddai ei chyfraniad at unrhyw fusnes Cyngor o'r fath yn niweidio hyder y cyhoedd ac
- Roedd ei buddiant yn gyffredin i gyfran sylweddol o'r cyhoedd

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Davies wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliadau 2 (d) a (e) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol at yr ail reswm a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Davies i gefnogi ei chais am ollyngiad, a dywedodd nad oedd yn

berthnasol i'r cais ar y sail ei fod yn fater lleol ac felly nid oedd yn gyffredin i gyfran sylweddol o'r cyhoedd.

Yn dilyn trafodaeth:-

**PENDERFYNWYD**

**4.1 bod y gollyngiad yn cael ei roi o dan Reoliad 2 (d) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Sharen Louise Davies siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig, ond nid pleidleisio, yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Gwledig Llanelli mewn perthynas â materion oedd yn ymwneud â gwaredu terfynau cyflymder 20mya a chyfyngiadau parcio ar Heol Maescanner, Llanelli**

**4.2 Bod cyfnod y gollyngiad yn cael ei roi hyd at ddiwedd cyfnod presennol y Cynghorydd Davies yn ei swydd hyd at yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022**

## 6. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**